

Telerau ac Amodau ar gyfer Defnyddio'r Cae Chwaraeon 3G

Cyfrifoldeb yr unigolyn a enwir ar y ddalen hon yw sicrhau bod ei grŵp yn cydymffurfio â'r amodau canlynol:

- Sicrhau bod darpariaeth Cymorth Cyntaf ar gael trwy gydol cyfnod yr archeb.
- Mewn achos o ddamwain sy'n gofyn am sylw meddygol pellach, rhowch wybod i staff y Coleg.
- Rhaid cadw'n llym at yr amseroedd a drefnir.
- Rhaid i sesiynau ddod i ben yn brydlon.
- **Grwpiau o blant** – dylid eu goruchwyllo ar bob adeg, gan sicrhau bod y gymhareb rhwng nifer yr oedolion a nifer y plant sy'n bresennol yn addas ar gyfer gofynion y gweithgaredd a gynhelir, a chydag o leiaf un oedolyn a drefnir gan y Llogwr yn bresennol. Mae hyn yn cynnwys dyfodiad ac ymadawiad y plant, ac felly gallai hyn fod y tu fas i'r amserau a drefnir. Oni bai y gofynnir amdano ac y'i harchebir yn arbennig, nid yw'r llogiad yn cynnwys unrhyw offer heblaw am byst gôl.
- **Mynedfa** – rhaid defnyddio'r fynedfa a'r llwybrau dynodedig i fynd i'r cae.
- **Er mwyn helpu diogelu'r arwyneb** – mae'r rheolwyr yn tynnu'ch sylw at y canlynol: ni ddylid ond gwisgo esgidiau ymarfer sydd â stydiau wedi'u mowldio neu banylau nad ydynt yn hwy na 5mm. Ni chaniateir gwisgo esgidiau sydd â llafnau neu stydiau metel ar y cae.
- **Esgidiau** – rhaid i bob chwaraewr eu gwisgo. Ni chaniateir chwarae'n droednoeth.
- **Ni chaniateir bwyd, diod, gwm cnoi, ysmegu na chŵn ar y cae neu o'i amgylch.**
- **Chwaraewyr** – ni chaniateir iddynt chwarae ar ochr y cae neu ar y manau glaswelltog a'i amgylch.
- **Talu** – rhaid gwneud pob taliad ar gyfer yr archeb naill ai cyn, wrth archebu, neu ar ôl derbyn anfoneb gan y Coleg.
- Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i gau neu wahardd defnyddio ei gyfleusterau os, ar unrhyw bryd ac yn ei farn ef, nad yw'r cyfleusterau neu ni fydd y cyfleusterau yn addas i'w defnyddio. Mewn achosion o'r fath, ni fydd unrhyw gostau'n ddyledus a bydd y Llogwr yn derbyn ad-daliad am unrhyw gostau a dalwyd ymlaen llaw. Ni fydd y Coleg yn gyfrifol am unrhyw golledion ariannol neu fel arall sy'n codi o ganlyniad i wrthod mynediad i'r cyfleusterau.
- Os yw'r Llogwr yn canslo archeb heb roi rhybudd o 7 diwrnod o leiaf, bydd yn rhaid i'r Llogwr dalu'r ffi llogi, oni bai bod y cyfleuster yn cael ei ail-logi er boddhad y Coleg.
- **Yswiriant** – ni fydd y Coleg yn atebol o gwbl ar gyfer unrhyw anaf personol, colled neu ddifrod a allai'r rheini sy'n defnyddio'r Cau Chwaraeon Artiffisial neu'r Canolfan Chwaraeon eu cael, oni phrofir esgeulustod ar ran y Coleg. At hynny, nid yw'r Coleg yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw hawliadau, gweithredoedd, galwadau, achosion neu gostau sy'n codi o ganlyniad i unrhyw hawliadau a wneir un erbyn y Llogwr gan drydydd parti, a bydd y Llogwr yn indemnio'r Coleg yn erbyn pob hawliad o'r fath a ellid ei ddwyn yn erbyn y Coleg o ganlyniad i, neu mewn perthynas â, llogi'r cyfleusterau ac offer. Mae cyfranogion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ar eu menter eu hunain.

- **Difrod** – mae'r Llogwr yn cytuno i dalu i'r Coleg, ar alwad, y gost ar gyfer atgyweirio neu wneud yn iawn am unrhyw ddifrod i'r cae, i'r adeiladau neu i'r dodrefn, offer ac eiddo ynddynt a allai fod wedi'u difrodi neu eu dinistrio gan neu o ganlyniad i'r archeb.
- **Mynediad** – mae'r Coleg yn cadw'r hawl, yn ôl ei ddisgresiwn absoliwt, i wrthod i unrhyw unigolyn gael mynediad i, neu i orfodi unrhyw unigolyn i adael, y cae neu'r Canolfan Chwaraeon.
- **Goruchwyllo** – Mae'r Llogwr yn gyfrifol am:
 1. Sicrhau bod y gweithgaredd a gynhelir yn cael ei oruchwyllo gan unigolyn cyfrifol.
 2. Gweinyddu, trefnu, a chynnal y digwyddiad.
 3. Sicrhau mai dim ond dyfarnwyr a hyfforddwyr cymwysedig sy'n cael eu defnyddio, a'u bod wedi'u hyswrio yn erbyn unrhyw hawliad posibl am iawndal a ellid gwneud yn eu herbyn.
 4. Goruchwyllo a rheoli gwylwyr, cystadleuwyr a swyddogion.
 5. Sicrhau bod gwylwyr, cystadleuwyr a swyddogion yn cael gwybod am y rheoliadau ar gyfer parcio ar gampws y Coleg, a'u bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau.
 6. Cadw pob safle, gan gynnwys cyfleusterau, ystafelloedd newid a thoiledau, mor lân a thaclus â phosibl – gellir codi tâl ychwanegol ar grwpiau nad ydynt yn cydymffurfio.
 7. Sicrhau bod digon o stiwardiaid a swyddogion yn bresennol i fodloni'r amodau hyn.
- Rhaid i'r Llogwr bob amser ufuddhau i gyfarwyddiadau staff y Neuadd Chwaraeon yn ystod yr amser a roddir ar gyfer diogelu rhag anafiadau neu warchod eiddo'r Coleg yn y Neuadd Chwaraeon ac o'i hamgylch.
- Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i wrthod adnewyddu cais os yw grŵp wedi camddefnyddio neu gam-drin y cyfleusterau yn flaenorol.
- Mae unrhyw gyhoeddusrwydd sy'n ymwneud â'ch digwyddiad yn cydnabod y defnydd o gyfleusterau'r Coleg, a rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan adran farchnata'r Coleg.
- Gall TAW fod yn daladwy lle bo hynny'n berthnasol.

Yr wyf wedi darllen a deall yr uchod. Os na fydd fy nghlwb yn cydymffurfio â'r meini prawf a amlinellwyd, byddwn yn hollol gyfrifol mewn achos o esgeulustod, ac yn fforffedu ein hawl i ddefnyddio'r cyfleuster.

Enw'r Clwb / Grŵp / Unigolyn (MEWN PRIFLYTHRENNAU):

Enw'r Cynrychiolydd (MEWN PRIFLYTHRENNAU):

Llofnod:

Dyddiadau (o bryd / tan bryd) ac amserau a gadarnheir:

Cyfeiriad:

Rhif ffôn:

Cyfeiriad e-bost:

Clybiau yn unig:

Enw Darparwr yr Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus:

Rhif y polisi:

Terfyn uchaf yr yswiriant:

Llenwch a dychwelwch i: bookings@bridgend.ac.uk